

Cenn@d

CHWFROR 16 2022 YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 51

Oes 'na ddyfodol i gynnyrch Masnach Deg?

Ar drothwy pythefnos Masnach Deg (o 21 Chwefror ymlaen) ac yn sgil penderfyniad llawer o gwmnïau rhyngwladol a rhai archfarchnadoedd i adael y mudiad Fairtrade a chreu brandiau masnach deg mewnol iddynt eu hunain, mae Aled Davies yn holi oes 'na ddyfodol i gynnyrch Masnach Deg.

Ers dros 30 mlynedd rydym wedi dod i arfer gweld logo du, glas a gwyrdd Masnach Deg ar gynnyrch yn y siopau, ar eitemau bob dydd fel te a choffi, reis a chnau, siocled a mêl, a bydd llawer yn chwilio'n fwrriadol am y logo hwnnw. O brynu'r cynnyrch a logo ac enw Fairtrade arno, mi fedrwn fod yn dawl ein meddwl bod yr hyn a brynwn yn foelol gywir ac yn deg i bob rhan o'r gadwyn gynhyrchu a dosbarthu, a hynny o ran y ffermwyr lleol a'r amgylchedd. Mae masnach deg yn drefniant sydd wedi'i gynllunio i helpu cynhyrchwyr mewn gwledydd sy'n datblygu i gael bywoliaeth gynaliadwy a theg, gan warchod yr amgylchedd yr un pryd.

30 mlynedd o weithredu

Mae Masnach Deg wedi bodoli ers 30 mlynedd, sy'n golygu 30 mlynedd o weld cynnyrch Masnach Deg yn ein siopau lleol a 30 mlynedd o effaith gadarnhaol ar ffermwyr, gweithwyr, a chymunedau tlawd ledled y byd. Dechreuwyd Masnach Deg yn 1989 mewn ymateb i frwydrau enbyd ffermwyr coffi yn Mecsico yn dilyn cwymp ym mhrisiau coffi'r byd ar ddiwedd y 1980au, a sefydlwyd Masnach Deg ym Mhrydain yn 1992. Yn dilyn apeladau parhaus am degwch yn y fasnach goffi gan ffermwyr o Fecsico, sefydlwyd Masnach Deg gan CAFOD, Cymorth Cristnogol, Oxfam a Traidcraft, ymhlith eraill.



Y cynnyrch Masnach Deg swyddogol cyntaf oedd bar siocled Maya Gold gan Green & Black, ac yn fuan wedyn fe'i dilynwyd gan goffi Cafédirect, coffi Percol a the Clipper. Erbyn hyn mae 1.7 miliwn o ffermwyr a gweithwyr Masnach Deg ar draws 73 o wledydd yn rhan o'r cynllun, a'r cynnyrch yn amrywio o hufen iâ i aur i flodau, ac i gynhyrchion harddwch; a dweud y gwir mae dros 4,500 o eitemau wedi'u harddstio gan Fasnach Deg.

Yn ôl ymchwil ddiweddar mae 93% o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig yn adnabod logo Masnach Deg, ac mae un o bob pedwar siopwr bellach yn prynu nifer o eitemau Masnach Deg yn rheolaidd. Mae un o bob pedair cwpanaid o goffi a yfir ym Mhrydain yn gynnyrch Masnach Deg, ac mae dau o bob tri banana sy'n cael eu gwerthu hefyd yn rhai Masnach Deg. Mae dewis Masnach Deg hefyd yn helpu



i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd gan fod ei safonau'n cynnwys meini prawf amgylcheddol, megis gwarchod yr amgylchedd naturiol, gwahardd y defnydd o bleiddiaid niweidiol, lleihau'r defnydd o ynni a dŵr, a thyfu mewn cytgordd â'r amgylchedd lleol.

Bu sawl carreg filltir nodedig ar hyd y daith: cwmni Nestlé yn ymrwmo i ddefnyddio siocled Masnach Deg yn eu bariau KitKat yn 2008, ac yna Cadbury yn cyhoeddi yn 2009 y byddai'r siocled eiconig Dairy Milk hefyd yn cario'r logo, gyda gwerthiant o dros 350 miliwn o farrau dros y byd. Cyhoeddodd Sainsbury's y byddai eu holl goffi a the dan frand yr archfarchnad yn Fasnach Deg, a chyflwynodd Tesco hefyd nifer o'u heitemau o dan frand Masnach Deg.



Bygythiadau i'r dyfodol?

Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o'r cwmnïau hyn wedi tynnu'n ôl o'r ymrwymiad hwnnw, gan greu brandiau masnach deg eu hunain. Mae Cadbury, sy'n rhan o gwmni enfawr Mondelez International erbyn hyn, bellach yn defnyddio'r enw Cocoa Life, a Nestlé yn defnyddio'r arwyddair 'Responsible Sourced Cocoa' tra mae sawl archfarchnad yn monitro'u hunain, neu'n defnyddio logo'r Rainforest Alliance. Erbyn hyn, nid yw KitKat, Dairy Milk, na the a choffi Tesco na Sainsbury's yn cario marc Masnach Deg, ond yn hytrach logo wedi ei greu ganddyn nhw eu hunain yn datgan bod y cynnyrch yn fasnach deg. Mae llawer o bobl o fewn y diwydiant arolygu safonau masnach deg yn poeni am hyn, gan nad oes bellach ffordd gytbwys o 'safoni' masnach deg.

Yr alwad i weithredu

Felly, wrth agosáu at bythefnos masnach deg, mae galw arnom unwaith eto i gefnogi'r ymgyrch, gan geisio prynu nwyddau sy'n cydymffurfio'n llawn â safonau Fairtrade. Mae marc swyddogol Masnach Deg yn gwarantu isafswm pris y cytunwyd arno gyda chynhyrchwyr. Bydd y pris hwn yn talu'r gost cynhyrchu, ac ar ben hyn telir premiwm ychwanegol i'w fuddsoddi mewn prosiectau sy'n gwella datblygiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal. Mae'r cynllun hefyd yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant am ddim, ac arolygaeth gan bwyllgorau gweithwyr sy'n caniatáu i fenywod chwarae rôl weithredol ynddynt.

Rhaid cytuno i amodau gwaith diogel a theg, a sicrhau dulliau cynhyrchu amgylcheddol gyfrifol a chynaliadwy. Dim ond trwy brynu cynnyrch swyddogol Masnach Deg y mae modd sicrhau'r parhad hwn.

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Dydd Gweddï
Tudalen 3

Taith ffydd tri yn parhad
Tudalen 4

O Gefn Gwlad
Tudalen 5

Oes 'na ddyfodol i gynnyrch Masnach Deg?

(parhad o dudalen 1)

Trefnir materion masnach deg yng Nghymru gan elusen Cymru Masnach Deg, gyda'i nod o gefnogi, cynyddu a hyrwyddo'r mudiad Masnach Deg yng Nghymru. Ers sefydlu'r elusen, mae wedi bod yn ymgyrchu dros hawliau ffermwyr a chynhyrchwyr mewn gwledydd incwm isel sy'n byw gydag effeithiau newid hinsawdd. Mae'n gweithio gyda dros 30 o gymunedau Masnach Deg ledled y wlad, mewn cyswllt rheolaidd â 200 o ysgolion, 18 awdurdod lleol ac wyth o fanwerthwyr Masnach Deg. Mae hefyd mewn cyswllt rheolaidd â grwpiau ffydd, prifysgolion a busnesau yng Nghymru er mwyn codi'r ymwybyddiaeth o bwysigrwydd masnach deg. Cymru Masnach Deg sydd hefyd yn cydlynu ymgyrchoedd Pythefnos Masnach Deg a theithiau cynhyrchwyr Masnach Deg yng Nghymru. Gall Cymru ymfalchïo yn ei statws o fod y wlad gyntaf yn y byd i dderbyn statws Gwlad Masnach Deg yn 2008, a diolch am y cyfan sydd wedi digwydd ers hynny. Ond mae llawer mwy o waith eto i'w wneud, ac mae'r elusen yn ein gwahodd ninnau fel Cristnogion ac eglwysi i ymuno yn yr ymgyrch. Ceir mwy o wybodaeth ar eu gwefan: <https://masnachdeg.cymru/>

Oes 'na ddyfodol i gynnyrch sy'n wir yn cyrraedd y safon o ran bod yn fasnach deg? Mae hynny yn ein dwylo ni – y rhai sy'n siopa. Beth am herio'r lleoedd hynny lle byddwn yn siopa, a gofyn am gynnyrch sy'n cyrraedd y safon? A chofiwch fod nifer o siopau ar hyd a lled Cymru sy'n arbenigo mewn cynnyrch Masnach Deg. Cefnogwn y rheini hefyd lle bynnag y medrwn.

Gweddi Pythefnos Masnach Deg

Wrth i ni fynd o gwmpas yn prynu nwyddau yn y siopau, bydd gyda ni, a helpa ni i ddewis yn ddoeth a chyfrifol. Wrth i ni grwydro o gwmpas stondinau yn y farchnad, bydd gyda ni, a helpa ni i ddewis yn ddoeth a chyfrifol. Wrth i ni wthio ein trolis a'u llenwi yn yr archfarchnad, bydd gyda ni, a helpa ni i ddewis yn ddoeth a chyfrifol. Wrth i ni fodio trwy gatalog yn llawn pethau deniadol, bydd gyda ni, a helpa ni i ddewis yn ddoeth a chyfrifol. Wrth i ni chwilio am nwyddau cyfleus ar y we, bydd gyda ni, a helpa ni i ddewis yn ddoeth a chyfrifol. Bob tro byddwn yn gwario ein harian, bydd gyda ni, a helpa ni i ddewis yn ddoeth a chyfrifol.

Helpa ni i ystyried o ble y daw'r cynnyrch a gan bwy y'i gwnaed, fel y bydd i ni gefnogi Masnach Deg a diogelu'r blaned. Helpa ni i ystyried a oes gwir angen y nwyddau arnom, fel y bydd i ni gefnogi Masnach Deg a diogelu'r blaned. Helpa ni i ystyried faint o wastraff a pheccynnu diangen a geir, fel y bydd i ni gefnogi Masnach Deg a diogelu'r blaned. Helpa ni i ystyried a oes opsiynau gwell ar gael, fel y bydd i ni gefnogi Masnach Deg a diogelu'r blaned. Helpa ni i chwilio am y marc sy'n dangos tarddiad y nwyddau, fel y bydd i ni gefnogi Masnach Deg a diogelu'r blaned.

Gwna ni'n siopwyr doeth a chyfrifol, wrth i ni ofalu am dy fyd a'i holl bobl.
Gwna ni'n fwy parod i herio polisïau cynhyrchwyr, wrth i ni ofalu am dy fyd a'i holl bobl.
Gwna ni'n barotach i fyw heb rai pethau, wrth i ni ofalu am dy fyd a'i holl bobl.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu, Amen.

CWRS BLAENORIAID

ar-lein, yn dechrau Mawrth 2022

addas ar gyfer blaenoriaid newydd,

rhai mwy profiadol sy'n weithgar yn eu heglwys leol,
a rhai sydd wedi gwneud y Cwrs Sacramentau

Bydd cyfle i drafod gyda chyd-flaenoriaid, gan ystyried rôl ac amcan yr eglwys leol, a gwaith y blaenor o fewn hynny. Bydd y Parch Mererid Mair ac eraill yn arwain, a'r pynciau dan sylw fydd:

- beth ydi blaenor, a beth yw'r disgwyliadau?
- be mae 'cenhadu' yn ei olygu i'n capel ni, a sut gallwn ymestyn allan?
- cefnogi ac ymweld efo cleifion, henoed a rhai mewn galar
- arwain addoliad – sut mae mynd ati?
- Henaduriaeth, Cymanfa, Sasiwn – be ydi be o fewn EBC?

Trefnir 5 sesiwn, yn cyfarfod ar lein bob pythefnos, ar amser cyfleus i'r myfyrwyr.

Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, anfonwch at y cydlynnydd hyfforddiant, delyth.oswy@ebcpcw.cymru 07986932261, cyn diwedd Chwefror os yn bosibl.

Mae Mererid Mair yn weithiwr cymunedol yn Noddfa, ac yn weinidog rhan-amser yng Nghaernarfon.

Delyth Oswy-Shaw

Cydlynnydd Hyfforddiant

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Cristnogaeth 21

Eisiau dod yn rhan o'r tîm? Eisiau gwneud gwahaniaeth?

Galwad am wirfoddolwyr!

Mae C21 yn elusen sy'n cynnig llwyfan i ddehongliadau radical, rhyddfrydol a blaengar o'r ffydd Gristnogol a thrwy hynny rydym yn hwyluso trafodaeth gyhoeddus a myfyrdod personol ar agweddau o Gristnogaeth heddiw.

Rydym yn awyddus i ehangu'r tîm sy'n cynorthwyo ei gilydd i arwain a datblygu'r elusen. Rydym yn chwilio yn benodol am unigolion sydd â sgiliau da ym maes technoleg gwybodaeth i roi arweiniad a chefnogaeth i'r swyddogion a'r Pwyllgor Llywio. Byddai sgiliau yn y maes clyweledol hefyd o fantais. Does dim tâl ond fe anrhydeddir unrhyw gostau perthnasol.

Os ydych chi'n meddwl y gallech gyfrannu at ddatblygiad C21 yn y modd hwn neu mewn ffyrdd eraill, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy'r manylion cyswllt canlynol:

Cristnogaeth21@gmail.com 07966 936297

www.cristnogaeth21.cymru

(Elusen gofrestredig: 1011618).

Dydd Gweddi 2022

Cynhelir Dydd Gweddi'r Byd ddydd Gwener, 4 Mawrth 2022. Paratowyd y gwasanaeth gan Chwiorydd Cristnogol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Thema'r gwasanaeth eleni yw addewid Duw: 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnir ar eich cyfer' – adnod o Jeremeia 29. Wrth ganolbwyntio ar ryddid, maddeuant, cyfiawnder a thangnefedd Duw, cawn weld sut y gall yr addewid hwn gynnig gobaith i bawb.

Dechrewyd cynnal dyddiau unigol o weddi a drefnwyd gan enwadau unigol yn America yng nghanol y 1880au. Bellach, daeth yn Ddydd Gweddi rhyngwladol ac ecwmenaidd. Pan fydd y dydd yn gwawrio yng Nghymru fore Gwener, 4 Mawrth 2022, bydd



miliynau o bobol eisoes wedi addoli gyda gwagedd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a throstyn nhw, gan ddechrau â'r oedfaon cyntaf yn Samoa. Rydym yn rhan o don enfawr o weddi a fydd yn cofleidio'r byd nes cynnal yr oedfaon olaf wrth i'r haul fachlud yn Samoa Americanaidd. Dyna wefr yw ymuno â phobl mewn dros 120 o wledydd ac ynysydd ledled y byd. Cofiwch fod yn rhan ohono.

Er bod cyfyngiadau Covid wedi llacio ychydig ers y llynedd, gwnawn ein gorau i gynnal ein gwasanaethau ar 4 Mawrth eleni drwy sicrhau ein bod yn cadw'n ddiogel. Os na fydd yn bosib chi gwrdd wyneb yn wyneb, gellir naill ai gynnal oedfa dros Zoom neu ddewis dyddiad arall a fydd yn gyfleus i chi. Profwyd cryn lwyddiant y llynedd wrth gynnal yr oedfa yn rhithiol neu'n ddigol mewn ambell ardal.

Os hoffech gael copi o'r oedfa, cysylltwch â Margaret Morgan ar 01978 756717. Fe fyddai'n braf cael casgliad o luniau o wahanol oedfaon sy'n cael eu cynnal dros y wlad. Danfonwch eich lluniau (un llun grŵp jpeg) at beti.wyn@icloud.com neu mae croeso i chi eu gosod ar dudalen Facebook Dydd Gweddi'r Byd

Dymunir pob llwyddiant i chi wrth drefnu ar gyfer Dydd Gweddi 2022.

*Parchg Beti Wyn James
Parchg Carys Ann
Swyddogion Cyhoeddusrwydd*

Gweddi dros Wcrain

Dduw Sanctaidd,
Daliwn ger dy fron bawb sy'n byw yn agos at wrthdaro a rhyfel:
a phawb sy'n byw yn nghysgod bygythiad rhyfel a thrais.
Cofiw yn arbennig bobl Wcrain a Rwsia.
Gweddiwn am ddatrysiad di-drais a heddychlon i'r gwrthdaro.
Rho inni galonnau croesawgar i gynnig lloches,
maddau inni ein casineb a'n gelyniaeth.
Tyn bobl yn ôl at y ddyndoliaeth a roist i ni
ac at y cymod a'r iachâd y rhoddaist dy fywyd drostynt.
Nertha ni i weithio gyda thi i adeiladu cyfiawnder a heddwch,
cymod ac iachâd,
yn ein calonnau a'n cartrefi,
yn ein strydoedd ac ymhob cymuned,
cymdogaeth a chenedl.
Bendithia bawb sy'n byw dros heddwch a lles eraill
a boed i'w gwasanaeth ddwyn ffrwyth.
Yn enw Crist. Amen.

*Inderjit Bhogal, Llywydd Anrhydeddus,
Cymdeithas y Cymod, Lloegr a'r Alban*

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 20 Chwefror, am 7:30yh (ailddarlliedir am 11:30yb y Sul canlynol)

Ar y rhaglen, byddwn yn nodi mis hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywedol (LHDT). Bydd Ryland yn cwrdd â Huw Jones, person ifanc sydd yn falch o fod yn hoyw ac yn Gristion, a chawn glywed gan gaplan sy'n angerddol dros greu eglwys sy'n gynhwysol i bawb.

Gallwch weld cylchlythyr mis Chwefror *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* drwy ddilyn y ddolen hon: [Dechrau Canu Dechrau Canmol \(adobe.com\)](https://www.adobe.com)

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 20 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp

Cyfle i glywed eto raglen lle mae Branwen Gwyn yn cyflwyno'r pedwarawd Naomi Griffiths, Sioned Mai Watkins, Aled Wyn Thomas a Rhys Griffiths yn canu emynau.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 20 Chwefror, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Aron Treharne, Caerfyrddin

Taith ffydd tri yn parhau

Yn ôl yn 2018–19 cafwyd cwmni [Tîm i Gymru](#) gwych o dan nawdd Undeb Bedyddwyr Cymru ar leoliad gydag eglwysi'r Bedyddwyr yng Nghymanfa Arfon. Tair blynedd yn ddiweddarach, dyma ddal i fyny ag Eleri Haf Alter, Gruffydd Jenkins a Hannah Smethurst i weld lle mae Duw wedi eu harwain ers iddynt fod yn aelodau o'r tîm.

Helô! Mae'n wych cael bod gyda chi i gyd. Dywedwch wrthyn ni yn gyntaf be wnaethoch chi nesa, ar ôl bod yn rhan o Dîm i Gymru?

Gruffydd: Roeddwn i'n ansicr iawn pa lwybr roedd Duw eisiau i mi ei ddilyn – addysg neu'r weinidogaeth. Felly, es i i wneud blwyddyn fel cynorthwydd addysgu Mathemateg i gael mwy o brofiad ar yr ochr honno, a helpodd hynny fi i benderfynu o blaid gweinidogaeth! Felly, gwnes i gais am interniaeth UBC a dysgu llawer trwy'r profiad cyn dechrau ar astudiaeth ddiwinyddol yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd.

Bendigedig. A Hannah, rydyn ni'n gwytod eich bod chi wedi dilyn llwybr tebyg. Eleri, beth oedd eich camau nesa chi 'te?

Eleri: Roeddwn i wedi disgwyl gwneud astudiaethau pellach, ond fe gaeodd Duw y drws hwnnw ac agor un arall gyda chwmni yswiriant yng Nghaerdydd. Ond cafodd fy nhim ei ddiswyddo yn ôl yn yr hydref, ac roedd yn edrych fel y gallai Duw fod yn dweud ei bod yn amser i mi fynd yn ôl at astudiaethau polisi cymdeithasol. Ac yn ddigon rhyfedd, fe ges i swydd gyda Chymorth Cristnogol a chael fy nerbyn ar gwrs meistr rhan-

amser, a'r ddau beth yn cyd-fynd yn dda dros ben!

Gwych iawn. Felly, gan fod rhai blynyddoedd wedi mynd heibio bellach, wrth i chi edrych yn ôl ar eich amser ar y flwyddyn fwlch, beth fydddech chi'n ei ddweud yw'r prif bethau a ddysgoch chi o'r profiad hwnnw gyda ni?

Hannah: Rwy'n meddwl, i bob un ohonon ni, un peth mawr oedd pa mor hanfodol yw gweithio fel tîm a gweithio'n dda ochr yn ochr â phobl eraill! Roedd gan bob un ohonom sgiliau a chryfderau gwahanol, felly roedd yna broses bwysig o weithio allan beth oedd fy rhai i, beth oedd eu rhai nhw ...

Gruffydd: Yn union. Gall fod mor hawdd, rwy'n meddwl, cael rhyw feddylfryd o fod yn 'fand un dyn', ond mewn gwirionedd, pan fyddwch yng nghanol pethau, rydych chi'n sylweddoli bod angen i chi rannu'r baich. Ac mae hefyd yn gwneud cymaint o wahaniaeth o ran prosesu pethau.

Eleri: Roedd hefyd yn baratoad da iawn ar gyfer bywyd go iawn – pethau fel cymryd rhan ym mywyd arferol yr eglwys, gorfod dod i arfer â ffyrdd amrywiol pobl o fynd ynghylch pethau, a jest bod yn Gristion mewn 'bywyd go iawn' yn hytrach nag yn y brifysgol neu gartref. Fe wnaeth y peth wir osod sylfeini pwysig i mi fel Cristion.

Gruffydd: Ac un peth arall – fe ges i'r cyfle i bregethu am y tro cyntaf, dim ond pythefnos i mewn i'r flwyddyn ac yna drwy gydol y flwyddyn! Sy'n teimlo'n rhagluniaethol, o ystyried yr hyn rwy'n ei wneud nawr.

Diolch am rannu hyn i gyd. Felly, beth ydych chi'n meddwl fydd y dyfodol yn ei gynnig i chi?

Gruffydd: Wel, dim ond Duw sy'n gwytod beth sydd ganddo i lawr y lôn i ni, ond rwy'n parhau â'm hastudiaethau a gobeithio y bydda i wedyn yn mynd i mewn i'r weinidogaeth gyda'r Bedyddwyr.


Eleri: Roeddwn i'n ei chael hi'n anodd i ddechrau – gyda'r pandemig a bod mewn dinas newydd – ymgartrefu mewn eglwys. Ond rydw i bellach wedi dod o hyd i un, ac mae hynny yn fendith fawr. Felly, rhwng hynny, setlo i mewn i'm swydd a'm cwrs meistr, rwy'n teimlo bod gen i ddigon i ganolbwyntio arno am y tro!

Hannah: Ar hyn o bryd rwy'n gwneud hyfforddiant cenhadol fel rhan o'm hinterniaeth eglwys, ac rwy'n teimlo galwad i genhadaeth yng Nghymru. Bydd angen i mi weld pa fath o weinidogaeth genhadol y mae Duw yn fy ngalw iddi ...

Diolch i chi i gyd, a byddwn ni'n parhau i weddio dros law Duw ar eich bywydau chi.

Ac mae Tîm i Gymru yn ôl ar gyfer 2022! Ydych chi'n nabod oedolion ifanc allai fod â diddordeb? Sydd eisiau gwasanaethu Duw dros y flwyddyn nesa?

Mae manylion llawn am y rhaglen yn ogystal â ffurflen gais ar gael o wefan Undeb Bedyddwyr Cymru: <https://ubc.cymru/cenhadaeth-cefnogol/cenhadaeth-yng-nghymru/>





O Gefn Gwlad



Hiliaeth

Y mae yna ryw elfen o ddilyn y ffasiwn yn y math o bynciau sy'n dod i'r brig mewn cenedlaethymdeithas, ffasiwn a benderfynir yn aml gan y cyfryngau torfol o ganlyniad i ryw ddigwyddiad neu ddatganiad neu weithred arwyddocaol, materion megis lle'r ferch mewn cymdeithas, priodasau hoywon, HIV/Aids ac yn y blaen.

A'r un sydd wedi bod yn codi ei ben ers tro bellach ac yn dal i rygnu ymlaen yn achlysurol yw gwrth-Iddewiaeth neu wrth-Semitiaeth, fel y gelwir ef. Rhywbeth sy'n bod mewn gwirionedd ers cyn co'. Yn wir, prin fod unrhyw genedl yn y byd wedi diodde cymaint dros y canrifoedd â'r Iddewon.

Ac mae o'n bod yn y manau mwyaf annisgwyl. Roedd o'n bod heb yn wybod i mi ym mhentre fy mhentyndod, lle y gelwid unrhyw un oedd braidd yn arw am y geiniog yn 'hen jiw'. A dwi'n siŵr i mi ei ddefnyddio fy hun fwy nag unwaith heb wybod be ar y ddaear oedd ystyr 'jiw!' Tybed a wyddai'r trigolion hyn a'i defnyddiai?

Un o'r manau lle y digwyddai'r gwrth-Semitiaeth hwn yn gyson oedd y cae pêldroed, a dyma nodi un enghraifft yn unig o'r saithdegau. Fe gyfrifid clwb Spurs yn glwb Iddewig i raddau am fod amryw o'r chwaraewyr yn Iddewon, a nifer fawr o'r cefnogwyr hefyd. Mewn un gêm yn erbyn Chelsea, dechreuodd dilynwyr y tîm hwnnw siantio parodi ar gân Guy Mitchell: 'Well, I never felt more like singin' the blues'. Eu cân nhw oedd: 'We've never felt more like gassing the Jews', ac yna'r

hisian i ddnwared sŵn y nwy gwenwynig yn cael ei ollwng yn siamberi marwolaeth y Natsiaid. A hynny, cofiwch, lai na deng mlynedd ar hugain wedi i'r holl erchyllterau yng ngwersylloedd yr Almaenwyr gael eu darganfod.

Ymataliaf rhag enghreifftio ymhellach a gofyn beth sydd a wnelo hyn yn benodol â'n crefydd ni ac â chyhoeddiad wythnosol fel *Cenn@d*? Hyn. Yn sylfaenol, crëwyd llawer o'r rhagfarn yn erbyn yr Iddewon gan y ffaith mai'r Iddewon laddodd Iesu Grist. Mi gofiwch yr hanes: i Peilat wrthod penderfynu rhwng dau ei hun a gofyn i'r dyrfa benderfynu drosto, a dewis i'w ollwng yn rhydd naill ai Iesu Barabas neu Iesu Grist. Dewis y dyrfa oedd Barabas.

Ond mae'r grefydd Gristnogol yn ei holl agweddau yn lân o'r agwedd hon at yr Iddewon erbyn hyn. Ydi hi? Doedd hi ddim yn y gorffennol yn sicr. Roedd Martin Luther, un o gewri'r ffydd, yn casáu'r Iddewon am y rheswm a nodais uchod; ac yn nes i'n hamser ni, yma yng Nghymru, rhoddodd O M Edwards, Cristion ac un o'n Cymry amlycaf, ei gas ar yr Iddewon hefyd.

Cyn i'r cyfnodau clo roi stop ar bopeth fe fyddwn yn flynyddol yn mynd i blygeiniau, ac yn y blynyddoedd diwethaf yn cymryd rhan. Rhaid imi gyfadde fy mod yn teimlo'n anghyfforddus bob tro wrth ganu gyda'r criw dynion Garol y Swper. Gofiwch chi ddechrau'r ail bennill?

Ein Meichiau a'n Meddyg, dan fflangell Iddewig
Ar agwedd un diddig, yn dioddef.

le, yr Iddewon yn ei chael hi eto.



L lun: <https://pixabay.com/images/id-2446112/>

Ond y mae yna broblem. A hon, dybia i, yw'r broblem i'r Blaid Lafur hefyd, sef yr hyn sy'n digwydd i'r Palestinaid ar Lain Gasa. Mae fy nghydymdeimlad innau efo'r Palestinaid, dwi'n cyfadde. Yr hyn y mae'n rhaid ei wneud yw gwahaniaethu rhwng y genedl neu'r hil Iddewig a gwladwriaeth Israel, a pheidio ymosod ar y naill wrth feirniadu ac ymosod ar agweddau a gweithredoedd treisiol y llall. Anodd? Ydi, yn bendant.

Lle bynnag y mae rhagfarn yn bodoli, ac mae o'n rhemp ym mhobman, beth yw'r ateb? Beth ddylai ein hagwedd ni fel Cristnogion fod tuag at y cyfan cymhleth sy'n digwydd? Onid gofyn un cwestiwn: beth fyddai Crist, yn ôl ein hadnabyddiaeth ni ohono, adnabyddiaeth a gawsom trwy'r efengylau a thrwy addysg grefyddol a chapel, yn ei wneud yn y sefyllfa hon? Ie'n sicr, ac mae'n swnio'n gwestiwn syml, yn tydi. Ond yn anffodus does dim byd yn syml mewn bywyd, yn nagoes!

Elfyn Pritchard

Dewch i weithio gyda Cymorth Cristnogol Cymru: Swyddog Addysg ac Ieuencid

Mae **Swyddog Addysg ac Ieuencid** yn swydd allweddol newydd o fewn tîm Cymru. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio i yrru'r cysylltiad gydag ysgolion a phobl ifanc yng Nghymru, gyda'r nod o adeiladu cefnogaeth letach a dyfnach ar draws codi arian, ymgyrchu ac addoli.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ffurfio a dyfnhau partneriaethau strategol yn y sector addysg yng Nghymru a chyda rhwydweithiau a chynghreiriau perthnasol, er mwyn hybu a chynnig adnoddau dysgu effeithiol am gyfiawnder byd-eang, yn cynnwys datblygu cynllun achrediad Cymdogion Byd-eang Cymorth Cristnogol ar gyfer cwricwlwm Cymru. Trwy gydweithio ag eglwysi, bydd y rôl hefyd yn gweithio i gryfhau, ysgogi, ysbrydoli a chynnig adnoddau rhwydweithiau ieuencid/oedolion ifanc strategol a'u harweinwyr yng Nghymru i fod yn rhan o waith ehangach Cymorth Cristnogol i roi eu ffydd ar waith.

Mae hon yn rôl ran amser (28 awr yr wythnos) lle byddwch yn gweithio o gartref yng Nghymru.

Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio, ewch i <https://jobs.christianaid.org.uk/vacancy/education--youth-officer-wales--swyddog-addysg-ac-ieuentid-cymru-3571/3589/description/>

Dyddiad cau: 20 Chwefror 2022

Hyfforddiant i arweinwyr eglwys

Mae cyfres hyfforddiant i arweinwyr eglwys – yn lleig ac yn ordeiniedig – yn cael ei chynnal ar hyn o bryd. Mae croeso i bobl ymuno mewn sesiynau unigol, neu'r gyfres, drwy gysylltu â'r Cydlynnydd Hyfforddiant, delyth.oswy@ebcpcw.cymru. Fe'u cynhelir dros Zoom ar fore dydd Mawrth, 10–12 o'r gloch.

Gweinidogaethu i bobl hŷn

1 Mawrth: 'Beth welwch chi?' Karen Jennings yn ystyried y newidiadau ddaw efo henaint, yn gorfforol, yn emosiynol, yn ysbrydol, yn gymdeithasol ac yn ariannol, a goblygiadau hyn wrth weinidogaethu.

Merched yn y Beibl

15 Mawrth: Bydd Arfon Jones yn ystyried beth mae'r Beibl yn ei ddweud am rôl merched o fewn yr eglwys leol.

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Fel deunydd ar gyfer myfyrdod personol ac astudiaeth grŵp, byddwn yn parhau hyd y Grawys â'r myfyrdodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

15 Rhoi theori ar waith

Heddwch, gwleidyddiaeth a'n byd cydgysylltiedig

Darllen: Rhufeiniaid 13: 1-7

Dyma pam hefyd yr ydych yn talu trethi, oherwydd gwasanaethu Duw y mae'r awdurdodau wrth fod yn ddyfal yn y gwaith hwn. Talwch i bob un ohonynt beth bynnag sy'n ddyledus, boed dreth, boed doll, boed barch, boed anrhydedd. (adn. 6-7)

Faint o weithiau ydych chi wedi clywed gwleidyddion yn dweud y dylai Cristnogion gadw eu trwynau allan o wleidyddiaeth? Fel arfer, fe gaiff ei ddweud pan fo beirniadaeth yn taro'n agos at adref a phan fo ffaeiddau mewn polisïau rhyw blaid o dan y chwyddwydr.

Rydym eisoes wedi gweld bod calon Duw yn dymuno gweld adfer shalom, ond beth pe byddem ni'n cytuno mai amcan gwleidyddiaeth yw gwneud yr un fath? Mae llawer o wleidyddion, o wrando ar eu hareithiau, yn credu mai'r amcan yw creu cyfoeth a llewyrch economaidd. Er bod hynny'n rhan o'r amcan, creu shalom ddylai'r nod uchaf fod, nid creu pobl sy'n gyfoethog ond dan bwysau ac yn anhapus, neu bobl sydd wedi dod yn gyfoethog drwy gymryd adnoddau gan eraill neu o greadigaeth Dduw.

Mae'r Beibl yn llawn o bobl dduwiol oedd ynglŷn â gwleidyddiaeth. Fe ddefnyddiwyd Joseff gan Dduw mewn sefyllfa o awdurdod dros holl wlad yr Aiff (Genesis 41:41); daeth Daniel yn drydydd person pwysicaf y deyrnas (Daniel 5:29); fe achubodd Esther ei phobl oherwydd ei safle breintiedig (Esther 8:5); ac fefedrodd Nehemeia arwain y gwaith o ailadeiladu muriau Jerwsalem oherwydd ei gysylltiadau â'r brenin (Nehemeia 2:4-6). Fe ddywedir llai am unigolion allweddol yn y Testament Newydd, oherwydd mae'r ffocws yn awr ar fywyd Iesu a'r Eglwys Fore. Ond mae'n eglur o'n testun ar gyfer heddiw fod lle i awdurdodau llywodraethol oherwydd bod eu hawdurdod yn dod oddi wrth Dduw.

Dydw i ddim yn argymhell y dylai Cristnogion bleidleisio dros blaid arbennig – coch, glas,

melyn, gwyrdd neu pa liw bynnag. Byddai'r fath awgrym yn wirion. Mae'n rhaid i bob un ohonom wneud ei benderfyniad ei hun, a bydd hynny'n golygu cyfaddawdu ar brydiau. Ond un peth na allwn ei wneud yw tynnu ein hunain allan o fyd gwleidyddiaeth. Mae ein ffydd yn ein cymell i gymryd rhan, oherwydd ystyr y gair gwleidyddiaeth yn Gymraeg yw 'gwyddor neu gelfyddyd llywodraeth gwlad; bywyd, materion' (GPC).¹

Fel y gwelsom, os oes un peth y mae gan Dduw gonsŷrn amdano, yna materion bywyd a gwlad ydy'r rheiny – ymhlith holl bobloedd y byd. A'i nod yw heddwch.

Does unlle lle mae bod yn dangnefeddwyr yn fwy perthnasol nag mewn cysylltiadau rhyngwladol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf fe fu gorthrwm treisiol o leisiau oedd yn anghytuno (e.e. Yr Aiff a Syria) ac o leiafrifoedd (e.e. yr Yazidi Cwrdaidd a Rohingya Mwslemaidd Burma, a phob lleiafrif arall yno erbyn hyn),² ac o ryfela rhwng cenhedloedd (lawer gwaith gyda chefnogaeth arfau'r gorllewin) yn rhy aml o lawer.

Dydw i ddim yn heddychwyr; dydw i ddim yn credu bod ymladd bob amser yn anghywir. Mae llawer o Gristnogion ac eraill yn heddychwyr, a dylid gwrandao arnynt, ond dydw i ddim dadlau'r safbwynt hwnnw yma. Yn hytrach, fy mhwynt i yw fod rhyfel bob amser yn drychineb, bob amser yn fethiant, bob amser yn achosi dinistr ym mywydau pobl diniwed, ac i'w osgoi bob amser hyd y mae hynny'n ddynol bosibl. Am y rheswm hwn, fe ddylai Cristnogion sydd wedi ymrwymo i fod yn dangnefeddwyr – yn wneuthurwyr heddwch – sicrhau, o leiaf, mai'r opsiwn olaf un bob tro yw rhyfel. Hyd yn oed wedyn, ni ddylid mynd i ryfel ac eithrio drwy ddulliau cymesur ac mewn modd sy'n lleihau'r posibilrwydd o gollu bywydau.

Ond mae heddwch, fel y gwelsom, yn golygu llawer mwy nag absenoldeb rhyfel. Dylem felly annog Cristnogion i fod yn rhan, fel pobl o ffydd, yn y prosesau sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar genhedloedd y gwledydd hyn. Nid oherwydd bod gan bobl o ffydd ryw

fonopoli ar ddaioni, synnwyr cyffredin na'r doniau angenrheidiol, ond yn hytrach oherwydd bod gan Gristnogion bethau pwysig i'w cyfrannu o'u traddodiad ffydd eu hunain ar nifer o faterion cenedlaethol a rhyngwladol.

Fel dilynwyd i'r un a ddaeth i wasanaethu ac nid i gael ei wasanaethu, fe allwn siapiro'r sgwrs genedlaethol yn y fath fodd fel bod ein tuedd ddynol i edrych ar ein hôl ein hunain yn unig yn cael ei thymheru gan ein cyfrifoldeb i ofalu am eraill, yn enwedig o ran lles cymdeithasol a'n triniaeth o ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Fel rhai sy'n derbyn o rad ras Duw, fe allwn ddwyn sylw at fantais bod yn bobl haelionus sy'n ymateb yn gyflym i bob math o drychinebau rhyngwladol. (Eto, er eglurdeb, dydy hyn ddim yn golygu bod haelioni yn nodwedd sy'n perthyn i Gristnogion yn unig.) Fel rhai sy'n ceisio Teyrnas Dduw, un ffordd effeithiol sy'n agored inni o amlygu teyrnasiad Duw yw rheoli economïau lleol a rhyngwladol, gan fynd i'r afael â materion fel creu swyddi, cyflogau teg, amgylchiadau gwaith diogel, tai fforddiadwy a diogelu'n hamgylchedd.

Ar lefel ryngwladol, dylem ymwneud â materion rhyddid crefyddol fel rhan o'n hymrwymiad i hawliau dynol sylfaenol. Dros y byd i gyd fe welwn Gristnogion yn cael eu herlid, ac efallai mai gennym ni mae'r unig leisiau sydd gan y rhain i'w codi yn erbyn y gorthrwm y maen nhw'n ei ddioddef. Ond os yw ein hymrwymiad yn golygu unrhyw beth, mae'n rhaid inni sefyll efo rhai sy'n arddel credoau eraill hefyd. Yn anffodus, mae yna ormod o achosion o Fwslemaidd yn erlid Cristnogion, ond nid yw'r Cristion ar ei ben ei hun yn ei ddioddefaint dros ei ffydd, fel y gwelwn yn yr esiamplau diweddar o'r Rohingya Mwslemaidd yn Burma a'r Ahmadi yn Pacistan ac mewn manau eraill.

Dylid annog y Cristion felly i fod yn wleidyddol weithredol, yn aelod o blaid wleidyddol, yn sgrifennu at gynrychiolwyr seneddol, yn barod i ymuno yn hytrach na sefyll y tu allan. Er hynny, rwy'n pwysleisio mai'r nod yw dwyn teyrnas o heddwch duwiol a chyfiawnder i fodolaeth, nid hyrwyddo un blaid yn fwy na'r llall. Byddai'n anodd dadlau o blaid doethineb dechrau o'r dde neu'r chwith gwleidyddol, yn arbennig yn y nod yma. Yr hyn nad yw'n dderbyniol yw cilio'n ôl a dweud nad oes a wnelo hyn ddim â'm ffydd. Mae a wnelo fo bopeth â'n ffydd! Daeth Iesu i ganol ein profiad dynol er mwyn gwaredu ein byd a'i bobl. Mae gwleidyddiaeth yn rhan allweddol o'r broses waredigol honno.

¹ Mae'r gair Saesneg *politics* o'i darddiad Groegaidd yn golygu, yn syml, faterion y ddinas.

² Flwyddyn ers *coup* y fyddin yn Myanmar, Chwefror 2021, mae pob lleiafrif dan fygythiad yno a'r wlad mewn cyflwr o ryfel cartref.

O'r Swyddfa Pwyllgorau a threfniadau!



Un: <https://www.pxfuel.com/en/free-photos-121414>

Yn ystod y blynyddoedd yn gwasanaethu'r Cyfundeb, rwy'n amau mai un o'r pethau yr wyf wedi dysgu fwyaf 'ar y job' yw sut mae pwyllgorau ayyb yn gweithio (neu ddim yn gweithio). Yn naturiol, mae yna amrywiaeth ohonynt, ac amrywiaeth anghyffredin yn y nifer sy'n mynychu. Wedi dweud am yr amrywiaeth yma, mae hi'n bosibl cyffredinoli.

Mae yna bwyllgorau sydd yn 'bwyllgorau hanesyddol'. Rywbryd yn y gorffennol pell penderfynwyd bod angen am y fath gyfarfod, ac er bod yr angen hwnnw wedi mynd heibio i bob pwrpas, mae yna gyndynrwydd rhyfedd i ddwyn y peth i ben – rhag ofn ... Yn yr un modd, mae yna bwyllgorau mwy diweddar a godwyd i drafod rhyw fater penodol, a gwnaed hynny. Ond wedi llwyddo i gasglu pobl at ei gilydd, mae'n biti colli unrhyw gyfle ddaw efallai yn y dyfodol i fanteisio ar y criw yma. Wedyn, mae yna bwyllgorau sydd â chylch gorchwyl penodol ac angenrheidiol. Yr her gyda'r rhain yw cadw at y gorchwyl.

O ran y bobl, a chyffredinoli eto, mae'r rhain yn dri dosbarth bras. Mae yna bobl sy'n frwd o blaid y rhan fwyaf o bopeth ac yn dod gyda syniadau a phosibiliadau. Yna, fe gewch y rhai sydd yn dod. Yn olaf, fe gewch yr aelodau sydd yn erbyn bron popeth. Mae'r rhain yn nabod gwendidau pob cynnig a phenderfyniad, ond yn anffodus, maent yn brin o awgrymiadau ac atebion gwahanol.

Mi fydd y rhai ohonoch sy'n perthyn i'r Presbyteriaid yn gwybod ein bod ar hyn o bryd yn trafod strwythur newydd ar gyfer y Cyfundeb, rhywbeth sy'n cydnabod ein sefyllfa ac yn ceisio delio â hynny. Y tro diwethaf inni wneud hyn mewn ffordd sylweddol oedd rhwng 2003 a 2007. Yr adeg honno, pan leihawyd nifer ein henaduriaethau ayyb, roedd gennym 33,000 o aelodau (2005), a'r henaduriaeth leiaf yn cynnwys 837 aelod. Bellach y mae gennym union hanner yr aelodau hynny, a'r henaduriaeth leiaf â llai na 300. Ar yr ochr arall, yr oedd ein dwy henaduriaeth fwyaf â 3,512 a 3,480 o aelodau; bellach 1,837 a 1,848 sydd ganddynt. Yn fras, o ran yr henaduriaethau, mae wyth o'r 14 henaduriaeth â llai na 1,500 o aelodau, â chwech o'r 14 o dan fil o aelodau.

Nid fy mod yn meddwl bod y ffeithiau hyn yn ddigon i berswadio. Ar wahân i'r sylweddoliad fod ffeithiau yn bethau ysgafn iawn mewn trafodaeth bellach, a phawb wedi hen arfer â gwranddo ar y bobl sydd o fewn eu cylch yn unig, mae yna realiti arall. I lawer, mae delio â materion fel hyn yn anghyffredin o boenus, y boen o gydnabod lle rydym, y boen o wynebu'r posibilrwydd fod pethau a strwythurau cyfarwydd yn cael eu colli, y boen o weld fod arfer â bod yn fach ac ymylol yn arfer chwithig iawn.

Wedi dweud hyn, nid yw bod yn fach ac yn ymylol wedi bod yn anhawster yn y gorffennol. I raddau helaeth, dyna sydd wedi bod yn nodwedd arferol i'r Eglwys, ac eithrio mewn cyfnodau o fendith oruwchnaturiol. Yr hyn sy'n rhyfeddol yw fod eglwys wedi bod yn anghyffredin o ddylanwadol er yn ychydig, yn weddill ynghanol gweddillion. Y gamp yw darganfod dealltwriaeth fydd yn cydnabod hynny, ond yn rhoi ffrâm ddiogel i sicrhau twf a ffyniant y gweddill hwnnw.

Meirion Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol
Eglwys Bresbyteriaidd Cymru

Newyddion gan Cytûn, Eglwys Ynghyd yng Nghymru

Mae Bwletin Polisi newydd Cytûn wedi'i gyhoeddi ac yn llawn gwybodaeth berthnasol inni fel eglwys yn ein hymwneud â'n cymunedau a'n gwasanaeth iddynt. Gellir ei weld yn gyflawn o ddilyn y ddolen hon: <https://www.cytun.co.uk/hafan/bwletin-polisi-chwef-mawrth-2022/>



Mae Cyfiawnder Tai Cymru (Housing Justice Cymru) yn aelod o Cytûn ac yn arwain gwaith partneriaeth yng Nghymru i ddatblygu'r cynllun Lletya ar gyfer pobl ddiymgeledd sy'n geiswyr lloches, ffoaduriaid neu â statws mewnfudod ansicr am resymau eraill.

Ymhlith y pynciau a drafodir yn y rhifyn hwn mae'r canlynol:

- Cynnal ceiswyr lloches yng Nghymru drwy Housing Justice Cymru
- Rhoi terfyn ar gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru o fis Mawrth
- Etifeddiaeth cynllun Sul yr Hinsawdd yn dilyn cynhadledd hinsawdd COP26
- Trefniadau newydd ar gyfer datganoli yn y Deyrnas Unedig
- Cyhoeddi'r dogfennau terfynol ar gyfer y cwricwlwm ysgolion newydd yng Nghymru i'w cyflwyno ym mis Medi, gan gynnwys y canllawiau ar y pwnc newydd 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' sy'n disodli Addysg Grefyddol
- Gweithdai defnyddiol ar-lein ar Ffydd yn nyfodol adeiladau eglwysig yng Nghymru. Mae'r rhain yn agored i bawb ac yn cynnwys pynciau fel ymgysylltu â'n cymunedau a ffyrdd arloesol o godi arian.
- Cynllun cymorth tanwydd gaeaf Cymru
- Newyddion am ddeddfwriaeth yn San Steffan a phryderon ein haelod eglwysig. Byddem yn eich annog i gymryd diddordeb yn y mesurau hyn: Bil Cenedligrwydd a Ffiniau, sy'n gwneud diwygiadau sylfaenol i drefniadau'r Deyrnas Unedig ar gyfer derbyn ac asesu'r rhai sy'n ceisio lloches; Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd, fydd yn gwneud bywyd yn anodd i Deithwyr a Sipsiwn ac yn rhoi hawliau ychwanegol i'r heddlu i atal protestiadau. Mae ymgynghori ar hyn o bryd ar ddiwygiadau posibl i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a byddai Cytûn yn croesawu cyfraniadau i'w hymateb iddo.

Diolchwn yn fawr i Gethin Rhys am y Bwletin ac am ei waith ar ein rhan.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Gwerthoedd y Deyrnas

Gweddi

Arglwydd Sanctaidd, credwn mai yn dy oleuni di y gwelwn oleuni; mai yn dy sancteiddrwydd di y deallwn beth yw sancteiddrwydd; mai yn dy gariad anhraethol di y gwelwn, drwy'r Ysbryd Glân, beth yw cariad sanctaidd a ffyddlon. Tyrd atom, 'O Grêwr pob goleuni, / tro di ein nos yn ddydd', er mwyn Iesu Grist. Amen.

Emyn 523 'O gariad, o gariad'

Cyflwyniad

Bydd pob un ohonom yn adrodd storïau wrthym ein hunain ac wrth ein cyfoedion. Llwyfan, yn ôl Shakespeare, yw'r byd i'n cyfraniad i'r ddrama fawr. Byddwn yn adrodd hanesion amdanom ein hunain wrthym ein hunain. Bydd yr 'hanesion' yn cadarnhau i'n hunain ac yn cyfleu i eraill yr hyn a gredwn – amdanom ein hunain, yr hyn a gredwn am fywyd, am ein gwerthoedd ac am bwrpas ein rhawd ddaearol.

Buan y dealla'r doeth nad ydym ni ein hunain fel unigolion yn ddigon mawr i fod yn gefnlen ar yr un llaw nac yn ganolbwynt i lifeiriant yr hyn a alwn ni yn 'hanes'.

Does dim rhaid chwaith bod yn berson o 'ffydd' i ddeall cymaint â hyn. Naill ai fel canlyniad i friadau a dewisiadau penodol o'n heiddo ein hunain, neu drwy werthoedd a fabwysiadwyd gennym yn ddiarwybod, bydd y pethau yr ydym yn rhoi gwerth arnynt, yn eu trysori ac yn eu caru yn llywio ac yn lliwio'r cyfan ydym.

Allwch chi ddim gweithio mewn siop sglodion heb i arogl y braster lynu wrthych!

Ac i berson sydd â 'ffydd', sy'n dewis 'credu' ac ymddiried yn Nuw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, mae yna ragdybiaethau gweithredol sy'n llywio'i fywyd. Mae credu â'n meddwl ac ymddiried â'n hewyllys fod yr Arglwydd Dduw yn grêwr, yn gynhaliwr, yn brynwr ac yn adferwr, yn llywodraethu dros bob peth, ac ym mhob peth, a hynny i ddbenion daionus, yn ein harwain at ddealltwriaeth arbennig am natur, gwerth a gwerthoedd ein bywyd ar y ddaear. Ni ddylai hyn arwain at dawelyddiaeth ond at hyder ffydd sy'n ein rhyddhau i fyw bywydau llawn a chreadigol. Bydd rhagdybiaethau'r ffydd yn cael eu hadlewyrchu mewn gwerthoedd a gweithredoedd Crist debyg.

Yn ein darlleniadau heddiw gwelwn 'ffydd' ar waith.

Ffydd ar waith – mewn darostyngiad ac mewn dyrchafiad

Darlleniad Genesis 45:1–11, 15

Byddai'n rhwydd i rywun sy'n darllen hanes Joseff ganolbwyntio ar y 'cam' a gafodd. Do, fe gafodd ei 'ddifetha' gan ffafriaeth ei dad, a doedd o ddim yn ddoeth pan ymfrostiodd yn ei freuddwydion wrth ei frodyr. Mae'n rhaid ei fod wedi cael ei glwyfo'n ddwfn pan werthwyd ef gan ei frodyr fel caethwas i deithwyr o Midian. Cafodd gam gan gyhuddiadau gwraig Potiffar a chafodd gam pan garcharwyd ef, yn ogystal â phan anghofiodd y gwas a ryddhawyd i wasanaethu Pharo am ei addewid i Joseff. Byddai wedi bod yn naturiol iawn i Joseff chwerwi a dal dig yn erbyn ei deulu a'i amgylchiadau.

O bob dolur a ddaw i'n rhan, gall cusan fradwrus cyfaill agor clwyf, neu bellhau a dieithrio anwyliad drywanu i'r galon, gan adael craith fyw na all dim, heblaw am faddeuant ac edifeirwch, fyth ei iacháu.

Drwy hanes Joseff ar ei hyd, yng nghanol y profiadau heriol a ddaeth i'w ran, dywedir wrthym fod Duw gyda Joseff.

Pan ddarllenwn yr adnodau hyn, gwelwn fod Joseff yn datgelu mwy i'w frodyr nag mai Joseff a safai o'u blaenau. Datgelodd Joseff iddynt gyfrinach ei ddealltwriaeth o fywyd. Dealltwriaeth ydoedd a brofwyd gan amgylchiadau, gan wendidau, gan gelwydd, gan dristwch: 'Peidiwch â chyffroi na bod yn ddig wrthych eich hunain, am i chwi fy ngwerthu i'r lle hwn, oherwydd anfonodd Duw fi o'ch blaen er mwyn diogelu bywyd ... felly nid chwi ond Duw a'n hanfonodd i yma.' (45:5,8)

Tybed, pe byddai rhywun yn gofyn i ni am ein 'stori', a fyddai'r ymwybyddiaeth fod llaw yr Arglwydd arnom yn ganolog i'r dystiolaeth?

Ffydd ar waith – pan mae'r drwg yn llwyddo

Nid dim ond mewn llwyddiant a hawddfyd y mynegir hwydd ffydd pobl yr Arglwydd. Gall anghyfiawnder ein baglu'n rhwydd. Gallwn siomi pan dybiwn fod y drwg yn llwyddo, fod cynllwynwyr yn elwa, fod y diniwed yn cael cam. Byddai'n rhwydd digio neu hyd yn oed gael ein baglu gan eiddgedd ar y llaw arall. Ateb y Salmydd yw hyn: 'Paid â digio, rho'r gorau i lid.' Oherwydd gwywo'n sydyn a wna'r drygionus, ac y 'dinistrir y rhai drwg' (adn. 9).

Caiff y rhai sy'n ymddiried yn yr Arglwydd eu galw i fyw'n wahanol drwy wneud daioni (h.y. nid dim ond ei drafod!). Ac o bwysu'n ffyddlon ac yn ymarferol ar ddaioni'r Arglwydd, bydd canlyniadau daionus yn dilyn. Cawn fyw mewn 'cymdeithas ddiogel'; cawn 'ddeisyfiad' ein calonnau, a bydd 'cywirdeb' yn 'disgleirio fel goleuni a'th uniondeb fel haul canol dydd'.

Mewn oes lle mae celwydd fel pe bai'n llwyddo, beth tybed mae'r Arglwydd am i ni ei glywed o'i air?

Darlleniad Salm 37:1–11, 39–40

Emyn 589 'Ysbryd graslon'

Ffydd ar waith – fel plant y goruchaf

Darlleniad Luc 6:27–38

Wrth ddarllen yr adnodau, tybed faint ohonom *nad oedd* yn gwingo wrth feddwl am werthoedd 'normal' neu werthoedd 'cyffredin' y byd o'n hamgylch a geiriau heriol Iesu. Os 'carwn', neu os gwnawn ffafrau, neu os benthyciwn i eraill fel pe bai'n fuddsoddiad sy'n disgwyl ad-daliad, neu rywsut yn llog i'w ychwanegu at ein cyfrif ysbrydol, yna cawsom ein caethiwo, meddai Iesu, gan werthoedd daearol cyffredin iawn. Heddiw, cyhoeddir 'Nage' dwyfol ar gaethiwd meddyliu tebyg. Caiff dilynwyr Iesu eu galw i fyw gan synied bod 'gwobr ... fawr' i 'blant y goleuni'. Cawn ein galw i garu mewn modd sy'n 'anghyffredin' yn y byd. Meddai Dietrich Bonhoeffer:

Mae bywyd dilynwyr Iesu yn oleuni sy'n goleuo'r byd, yn ddinas wedi ei gosod ar fryn, yn ffordd [o fyw] o hunanymwadiad, o gariad dihybydd, o burdeb absoliwt, gwirionedd a gostyngieddrwydd addfwyn. Mae'n gariad [sy'n ymestyn yn] ddiarbed tuag at ein gwrthwynebwyr crefyddol, gwleidyddol a phersonol. Ym mhob achos, cariad ydyw a gyflawnwyd yng nghroes Iesu Grist.

Tybed ai dyna'r gwerthoedd 'anghyffredin' a welir yn nom heddiw?

Gweddi

Mewn byd anonest caniatâ i ni fod yn eirwir, yn onest, gan fyw yn ostyngedig, a'th ganlyn di i'r cariad eithaf hwnnw a ddatguddiwyd i'r byd yn Iesu Grist.

Emyn 757 'Fy hunan oll i ti'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)